Gweithdy Trafnidiaeth Sain Tathan – Dydd Mawrth 9 Rhagfyr, 2008

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu cofnod o'r sylwadau a wnaed yn ystod y Gweithdy Trafnidiaeth a gynhaliwyd yn Y Man Ymgynnull, Sain Tathan ar ddydd Mawrth 9 Rhagfyr, 2008.

Mae'r pwyntiau hyn wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio ac er ei bod yn amhosib ymrwymo i weithredu ar bob pwynt, byddant i gyd yn cael eu hystyried gan dîm y prosiect fel rhan o'r broses ymgynghori.

i. Trenau

Cwestiynau

1. A ellir cael gorsaf drenau yn Sain Tathan?
2. Oes yna astudiaethau wedi eu gwneud i benderfynu a yw gorsaf drenau yn Sain Tathan yn ddichonadwy?
3. A fyddai gwasanaeth bob hanner awr rhwng Llanilltud Fawr a Chaerdydd yn bosib?
4. Roedd cledr sbardun arfer mynd o lein Llanilltud Fawr i mewn i'r safle – ydi hi'n bosib defnyddio hwn unwaith eto?

Sylwadau

5. Byddai'r buddiannau o gyflwyno gorsaf drenau arall yn Sain Tathan yn gyfyng - mae'r pellter rhwng y ganolfan a Sain Tathan, a'r ganolfan a Llanilltud Fawr, yn debyg iawn. Byddai'n well canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth bws.
6. Byddai gorsaf drenau newydd yn Sain Tathan yn cael llawer o ddefnydd ac yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r trên
7. Rhaid ystyried cost gorsaf newydd yn Sain Tathan yn ofalus. Gellid gwario'r arian yn well ar rywbeth arall
8. Mae'n rhy bell i gerdded o orsaf drenau Llanilltud Fawr i'r safle – mae oddeutu awr a deg munud i'r Gwersyll Dwyreiniol
9. Dewis arall fyddai agor/adfer gorsaf drenau Gileston gyda gwasanaeth bws gwennol i'r safle
10. Bydd gweithwyr yn dod o'r Gorllewin yn ogystal â'r Dwyrain. Mae'n bwysig bod y gwasanaeth rheilffordd yn cael ei wella gan fod y gwasanaeth o Faesteg i Fro Morgannwg yn annibynadwy, gyda chysylltiadau gwael. Roedd y gwasanaeth arfer bod yn dda a phetai pwysau'n cael ei roi ar y gweithredwyr rheilffordd, gellid ei wella'n hawdd
11. Mae'r gwasanaeth trenau ar hyn o bryd rhwng Llanilltud Fawr a Chaerdydd yn wael gyda dim ond un trên yr awr
12. Mae trenau o Gaerdydd yn gorffen yn rhy gynnar (10.30pm) a dylent redeg yn hwyrach yn y nos
13. Does dim digon o gerbydau ar y trenau sy'n rhedeg felly mae lle yn gyfyng

ii. Bysus

Cwestiynau

1. Beth yw'r galw arfaethedig am wasanaethau bws ychwanegol fydd yn cael ei greu?

2. A ellid darparu bysus gwennol i weithwyr sy'n teithio i'r safle o'r tu allan i'r ardal leol?
3. A ellid cael cynllun parcio a theithio i ddod a phobl o'r ardal ehangach i mewn i'r safle, ar safle i'r gogledd o'r B4265 o bosib (gyferbyn a'r gofeb)?

Sylwadau

4. Mae angen gwella'r gwasanaeth bws presennol os yw bobl yn mynd i'w ddefnyddio, yn arbennig i ac o Gaerdydd – mae gwasanaethau'n gyfyng iawn ar hyn o bryd ac fe ddylai fod yna wasanaeth bob hanner awr o leiaf.
5. Mae darpariaeth gwasanaethau bws yn amodol ar y galw amdano. Os fydd cynnydd yn y galw, bydd y gwasanaeth yn tyfu i ateb y galw. Ar hyn o bryd, dim ond pobl hŷn sy'n defnyddio'r bysus ac nid ydynt yn llawn
6. Dylid ceisio sicrhau bod y gwasanaeth bws yn ateb y galw amdano trwy ddarparu bysus ychwanegol ar adegau prysur.
7. Byddai cynyddu'r gwasanaeth bws ar adegau prysur, gyda chymorth gan yr MOD i dalu amdano ac yn cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr yr MOD a'r cyhoedd, yn beth da efallai
8. Dylai fod yna wasanaeth bws pwrpasol ar gyfer personél milwrol i ac o Lanilltud Fawr er mwyn osgoi amharu ar y cyhoedd
9. Mae bws gwennol yn rhedeg o orsaf drenau Rhws i faes awyr Caerdydd sy'n gweithio'n dda iawn a gellid ei ddefnyddio fel model
10. Dylid ehangu gwasanaeth V2 i gynnwys amser ysgol a dylai barhau hyd at gyda'r nos – ar hyn o bryd mae'n gorffen am 5pm
11. Dylid ehangu'r gwasanaeth i'r Barri hyd hanner nos
12. Mae'r gwasanaeth X90 yn osgoi tro Sain Tathan pan fo'n rhedeg yn hwyr
13. Dylai bod yna lwybr bws ar hyd y B4265 i Eagle Road yn hytrach na defnyddio'r tro gwael yn Nhrebefered
14. Dylai'r llwybrau bws aros fel y maent
15. Dylai bysus redeg ar ddydd Sul ac ar Wyliau Banc
16. Ar hyn o bryd mae bysus yn gorfod mynd trwy Drebefered felly ni fyddai parhau i ddefnyddio ffordd Eglwys Brewis yn gwella'r broblem. Gellid osgoi "log jam" yn Nhrebefered trwy ddefnyddio'r ffordd gyswllt ar gyfer bysus i'r Academi Dechnegol Amddiffyn/Parc Busnes Awyrofod o orsaf Llanilltud Fawr
17. Dylai fod yna gylch o Lanilltud Fawr i Sain Tathan, Gileston, ar hyd y B4260 ac yn ôl i Lanilltud Fawr i wasanaethu'r gymuned ehangach. "Mwy a Gwell"

Safleoedd Bws

18. Dylai safleoedd bws fod dan orchudd er mwyn amddiffyn rhag y gwynt a'r glaw a dylent gael eu goleuo'n dda. Dylai fod yna groesfannau i gerddwyr wrth ymyl yr arosfannau bws a dylai fod yna ddigon o le i geir basio bysus ar y safleoedd
19. Mae angen safleoedd bws ger y mynedfeydd newydd i'r safle ac wrth yr adnoddau chwaraeon
20. Mae'n bwysig darparu gwybodaeth hawdd ei ddeall a chywir ar amseroedd bysus e.e. Gwybodaeth Amser Real ar y safleoedd bws
21. Dylid ystyried trefniant dros dro ar gyfer safleoedd bws ac yna'u cadarnhau ar ôl i'r Academi Dechnegol Amddiffyn/Parc Busnes Awyrofod agor gan y byddai hyn yn sicrhau eu bod yn y llefydd iawn.

iii. Beicwyr & Cerddwyr

Cwestiynau

1. Fydd yna ddarpariaeth ar gyfer llwybrau beic a cherddwyr yn cael ei ychwanegu ar hyd ffyrdd prysur fel y B4265?
2. Sut fydd llwybr i feiciau yn gweithio ar hyd Ffordd Eglwys Brewis?

3. A fyddai'n bosib cael pont i gerddwyr a chroesfan i feicwyr dros y B4265 ar gyffordd y Ffordd Fynediad Gogleddol?
4. A allai beicwyr a cherddwyr gael eu tynnu oddi ar y brif gyffordd rhwng y B4265 a'r Ffordd Fynediad Gogleddol gyda chroesfannau pwrpasol mewn mannau eraill?

Sylwadau

5. Yn hytrach na darparu llwybrau beicio a cherdded ar hyd ffyrdd prysur, byddai'n well eu cael nhw ar ffyrdd tawelach ble mae pobl yn teimlo'n fwy diogel ac felly'n fwy tebygol o'u defnyddio
6. Dylai gwelliannau i Ffordd Eglwys Brewis gynnwys pafinau
7. Mae'n bwysig bod yna lwybrau beicio a cherdded da sy'n cysylltu gyda gorsafoedd trenau a rhwydweithiau beicio eraill
8. Dylai fod gan y Ffordd Fynediad Gogleddol lwybr beicio a llwybr cerdded fyddai ar wahân i'r mynediad i gerbydau
9. Dylai fod yna lwybr beicio a cherdded yr holl ffordd o amgylch y safle ac i lawr i Rhws, Y Bari, ac i ac oddi wrth gorsaf drenau Llanilltud Fawr - byddai angen iddo gael ei oleuo'n ddigonol
10. Nid yw'n bosib defnyddio rhai o'r llwybrau cerdded sy'n bodoli eisoes oherwydd gordyfiant ac nid ydynt wedi eu nodi gan arwyddion hawl tramwy. Gellid gwella'r rhain a'u defnyddio ar gyfer hamdden neu fel llwybr amgen i'r gwaith
11. Mae angen gwella pob agwedd o'r ffyrdd lleol. Dylid cadw dynion a merched ifanc oddi ar y ffyrdd!
12. Dylai fod yna groesfan o Drebefered i'r mynediad i'r Gwersyll Gorllewinol
13. Dylid darparu croesfan ar Ffordd Eglwys Brewis er mwyn mynd i mewn i'r amgueddfa
14. Mae angen llwybr cerdded/pafin o'r safle bws at siop Spar
15. Rhaid cadw llwybr y mileniwm o Lanilltud Fawr i Lanmaes - mae hwn yn agos at lwybr y Ffordd Fynediad Gogleddol

iv. Ceir

Cwestiynau

1. Faint o geir ychwanegol fydd ar y ffordd unwaith i'r Academi Dechnegol Amddiffyn agor?
2. Sut fydd traffig yn cael ei rwystro rhag mynd i mewn i bentref Sain Tathan?
3. Faint o fyfyrwyr fydd yn berchen ar eu ceir eu hunain?

Sylwadau

4. Mae angen bod yn ofalus ynglŷn â darparu gormod o lefydd parcio gan y bydd yn annog pobl i ddefnyddio eu ceir. Dylid darparu llai o lefydd parcio a gwella trafnidiaeth gyhoeddus
5. Hyd yn oed os yw trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei wella bydd myfyrwyr yn dal i ddod a cheir i'r safle gan y byddant angen cyrraedd adnoddau lleol (e.e. archfarchnadoedd)
6. Mae'r cyfyngder cyflymder yn Sain Tathan yn cael ei dorri'n rheolaidd a dylai fod yna gamera cyflymder yno

v. Traffig Adeiladu

Cwestiynau

1. Pa ddirwyon sy'n cael ei rhoi ar draffig adeiladu sy'n gwyro oddi ar y llwybr cymeradwy?
2. Sut fydd hi'n bosib annog traffig adeiladu i beidio â mynd trwy Sain Tathan?
3. A ellir gwella'r cysylltiadau rheilffordd i'w defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau traffig cysylltiol ar y ffyrdd?

Sylwadau

4. Mae angen agor y Ffordd Fynedfa Gogleddol i draffig adeiladu cyn gynted â phosib
5. Mae angen cyfyngu ar y nifer o loriau sy'n defnyddio Ffordd Eglwys Brewis
6. Byddai mannau pasio ar Ffordd Eglwys Brewis yn lleddfu problemau
7. Mae angen i lwybrau traffig adeiladu gael eu harwyddo'n dda a dylent osgoi Five Mile Lane o'r Barri
8. Dylid defnyddio model traffig adeiladu'r Ddraig Goch
9. Mae nifer y lorïau a rheolaeth diogelwch yn achosi pryder
10. Ni fydd Waycock Cross yn gallu ymdopi gyda lefelau uchel o draffig adeiladu
11. Dylai loriau ddefnyddio mynediad y Gwersyll Gorllewinol i fynd i mewn i'r safle
12. A fydd traffig adeiladu'n cael caniatâd i deithio yn ystod y nos? Os felly, mae hyn yn achos pryder yn lleol

vi. Ffyrdd/Seilwaith

Cwestiynau

1. O ble fydd y traffig sy'n defnyddio ffordd newydd Eglwys Brewis yn dod/beth yw'r dalgylch?
2. Ydi'r B4265 yn mynd i allu ymdopi gyda'r cynnydd mewn traffig fydd yn cael ei greu?
3. Pam bod angen estyniad ar ffordd newydd Eglwys Brewis?
4. O ble fydd yr arian yn dod i adeiladu ffyrdd newydd?
5. Sut fydd cyffordd y Ffordd Fynediad Gogleddol a'r B4265 yn edrych?
6. A fydd hi'n bosib rhwystro traffig rhag troi oddi ar y B4265 trwy Sain Tathan?
7. Sut gellir rhwystro traffig yr Academi Dechnegol Amddiffyn rhag defnyddio hen ffordd Eglwys Brewis?
8. Pam na all y brif ffordd i mewn fod o'r de gyda thwnnel o dan y rhedfa?
9. A ellir gwella'r "rat runs" sy'n bodoli eisoes?
10. Pa welliannau sy'n cael eu gwneud i'r rhwydwaith ffyrdd?

Sylwadau

Gwelliannau Ffyrdd

11. Ni fydd unrhyw welliannau sy'n cael eu gwneud i drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu dim oni bai bod y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei wella yn yr un modd
12. Mae angen ystyried traffig yn dod i mewn o'r Gorllewin – mae gwelliannau presennol yn seiliedig ar draffig yn dod i mewn o'r Dwyrain
13. Ar hyn o bryd mae Llyswyrni'n dagfa ar gyfer traffig. Mae angen ystyried hyn fel rhan o unrhyw gynllun gwella a dylid ei gwblhau cyn i'r adeiladu ddechrau. Dylid adeiladu ffordd osgoi o amgylch y pentref
14. Mae angen seilwaith ffyrdd da er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd mewn traffig yn yr ardal ehangach, yn arbennig yn dod o'r A48. Mae angen i draffig osgoi defnyddio'r lonydd cul yn yr ardal
15. Mae Croes Cwrlwys eisoes ar stop
16. Dylid rhoi blaenoriaeth i welliannau Gileston Cross ac mae angen goleuadau traffig neu gylchfan – mae angen mesurau o ryw fath i leddfu'r traffig
17. Dylai fod yna gylchfan ar Gyffordd Sain Tathan, nid goleuadau traffig
18. Mae angen sicrhau bod yr holl ffyrdd o amgylch Eglwys Brewis yn cael eu cynllunio'n ddiogel, o Flemingston i siop Spar
19. Mae angen mesurau lleddfu traffig ar Ffordd Y Bontfaen
20. Mae'r prif lwybr i'r safle i wasanaethau brys yn annigonol (o Ffordd New Barn ar hyn o bryd)
21. Dylid symud cylchfan Waycock yn agosach at y coetir er mwyn caniatáu mynediad i'r cae
22. Nid yw traffig yn defnyddio'r B4260 ar hyn o bryd oherwydd y nifer o gylchfannau o'r Barri. Bydd angen delio gyda hyn os am annog traffig i ddefnyddio'r llwybr hwn
23. Mae ffordd fynediad Trebefered eisoes yn broblem i bobl Trebefered a Llanilltud Fawr
24. Mae'r ffordd ble mae gorsaf betrol Gileston o safon wael

25. Gallai llifogydd o amgylch Ffordd Eglwys Brewis a Threbefered waethygu yn sgil y cynigion a bydd dŵr ar y ffyrdd yn cyfyngu ar eu defnydd

Mynediad i'r safle

26. Mae mynedfa newydd o'r B4265 yn rhy agos at y gyffordd sy'n bodoli eisoes ac fe all fod yn beryglus
27. Mae'n bechod na ellid gwella Ffordd Eglwys Brewis a'i ddefnyddio fel y brif ffordd fynediad i'r safle
28. Pam fod angen cael mynediad ar wahân i'r Parc Busnes Awyrofod o'r De?
29. Gellid symud y ffordd fynediad newydd i fod 'tu mewn i'r weiren', gyda throad odd i ar y B4265 i mewn i'r Gwersyll Gorllewinol ac i mewn i'r Parc Busnes Awyrofod
30. Mae angen digon o lefydd pasio ar y Ffordd Fynediad Deheuol i mewn i'r Parc Busnes Awyrofod
31. Byddai'n dda cadw Higher End ar agor, ond gyda rhyw fath o reolaeth traffig i rwystro traffig y Parc Busnes Awyrofod rhag ei ddefnyddio ac i rwystro traffig rhag mynd trwy bentref Sain Tathan
32. Mae'r brif fynedfa i'r safle'n achosi pryderon ynglŷn â diogelwch ffordd yn arbennig o amgylch y goleuadau traffig. Dylid gostwng cyflymder ar y B4265
33. Nid yw aliniad presennol y Ffordd Fynediad Gogleddol yn caniatáu mynediad i'r maes carafanau - mae unedau yn 12 troedfedd o led. Mae angen cadw'r mynediad sydd eisoes yn bodoli am resymau iechyd a diogelwch, yn arbennig mynediad i beiriannau tân
34. Gellid cael ffordd fynediad amgen o gyffordd Spar i Lime Kiln/Barons Well
35. Peidiwch â chanolbwyntio ar fynediad i'r Academi'n unig - mae angen trafod mynediad i'r Parc Busnes Awyrofod hefyd
36. Dylai mynediad o'r Ffordd Ogleddol ddod i mewn o'r ochr Ogleddol i mewn i DARA- a pheidio â mynd dim ymhellach (cadw oddi wrth dai)
37. Awgrymu cau Higher End a'i ddefnyddio fel llwybr beicio

Lonydd Cefn/'Rat runs'

38. Bydd y 'cyswllt' o'r Ffordd Fynediad Gogleddol i'r ffordd leol ger y parc carafanau i mewn i 'Oxen Lane' yn annog defnyddio lonydd cefn trwy Lanmaes a dylid cael gwared ohono
39. Dylid cau rhai o'r lonydd lleol i'w rhwystro rhag cael eu defnyddio er mwyn osgoi defnyddio'r prif ffyrdd
40. Mae angen cau'r lôn gefn o Picketston Lane i mewn i'r safle er mwyn mynd i'r afael a materion diogelwch
41. Bydd ffordd newydd Eglwys Brewis yn achosi lôn gefn neu 'rat run' arall

vii. Sylwadau Eraill

Cwestiynau

1. Am faint o amser fydd myfyrwyr wedi eu lleoli yn Sain Tathan?
2. Oes yna Gynllun Teithio Gwyrdd?
3. Faint o le sydd yna i gyfraniadau s106 gael eu defnyddio i gymorthdalu darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus pellach hyd nes ei fod yn hunan gynaliadwy?
4. Faint o bobl fydd yn teithio i mewn i'r ardal?
5. Beth fydd effaith y dirwasgiad ar ddyfodol y Parc Busnes Awyrofod? Mae angen sicrhau ei fod ond yn cael ei ddatblygu os oes digon o alw i gyfiawnhau hynny – angen osgoi 'eliffant gwyn'
6. Sut fydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei amserlennu? A fydd y gwaith seilwaith yn cael ei gwblhau cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau?
7. Ydi'r ffordd gyswllt i'r maes awyr wir yn ddefnydd da o arian? Oni fyddai'n well ei wario ar wella'r rhwydwaith rheilffordd leol? Nid yw cynllun Sain Tathan yn cael ei ystyried mewn cydweithrediad gyda ffordd y maes awyr
8. Byddai'r cyfleusterau marchogaeth o Higher End trwy'r Parc Busnes Awyrofod i fferm Batslays yn diflannu yn sgil y datblygiad – ydi hi'n bosib darparu cyfleusterau amgen?
9. Faint o ddiddordeb sydd yna gan gwmnïau'n ystyried adleoli i'r Parc Busnes Awyrofod?

10. Sut fydd hi'n bosib mynd i mewn i'r amgueddfa?

Sylwadau

11. Mae'n bwysig deall yr ôl troed carbon a sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth trafnidiaeth ychwanegol yn cael ei gynllunio i leihau hyn
12. Mae'n hanfodol cael rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gyfannol o ansawdd uchel er mwyn annog pobl i beidio â defnyddio'u ceir, yn ogystal â dewisiadau amgen ar gyfer cerdded a beicio
13. Mae'n bwysig bod llif traffig ar ac oddi ar y safle'n cael ei reoli mor effeithiol â phosib
14. Mae'n bwysig cydlynu datblygiad ffordd fynediad y maes awyr gyda'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn Sain Tathan
15. Mae'n bwysig bod y prosiect yn ystyried yr effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth yn y Fro/yr ardal ehangach
16. Mae pryderon y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cytuno i bopeth
17. Fydd dim yn newid o ganlyniad i'r ymarfer hwn

- gorffen -